# PWYLLGOR PERSONÉL

**(Remotely Via Teams)**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | **7 Mehefin 2021** |
| **Cadeirydd:** | **Y Cynghorydd D Jones** |
| **Is-gadeirydd:** | **Y Cynghorydd D Cawsey** |
| **Cynghorwyr:** | S Bamsey, S E Freeguard, J Hale, N T Hunt, J Jones, S A Knoyle, E V Latham, S Miller and A J Taylor |
| **Aelodau nad ydynt yn Pleidleisio:** | Y Cynghorwyr C Clement-Williams, A Lockyer, P Rees, P Richards |
| **Swyddogion a oedd yn bresennol:** | S Rees, D Hopkins ac N Jones |

---

1. **Adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu Chwarter 4 2020/2021**

Rhoddodd yr Aelodau drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnodd yr Aelodau am y costau tâl salwch ar gyfer blwyddyn 2020/21. Dywedodd swyddogion y byddent yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i'r aelodau.
Nododd yr Aelodau fod lefelau absenoldeb wedi gostwng eleni, a gofynnwyd a oedd hyn oherwydd bod pobl yn gweithio gartref. Dywedodd swyddogion, er ei bod yn wir bod cyfran sylweddol o'r staff yn gweithio gartref a bod hyn yn ddi-os wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn absenoldeb, mae cyfran fwy wedi parhau i weithio yn y gweithle ac mewn cymunedau drwy gydol y pandemig. Credir hefyd fod lefelau hylendid uwch yn ogystal â lefelau uwch o ymgysylltu wedi cyfrannu at y lefelau absenoldeb. Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod lefelau'n gostwng, yn enwedig mewn perthynas ag absenoldeb sy'n gysylltiedig â straen a gofynnwyd pa gymorth a roddwyd i weithwyr mewn perthynas â'u hiechyd meddwl. Dywedodd swyddogion fod y cyngor wedi ymrwymo i 'Amser i Newid Cymru' cyn y pandemig ac wedi gweithredu Cynllun Gweithredu o fesurau i gefnogi iechyd meddwl a lles gweithwyr. Roedd hyn yn rhoi'r cyngor mewn sefyllfa gref iawn wrth fynd i mewn i'r pandemig. Roedd y tîm wedi darparu ystod eang o hyfforddiant e.e. cymorth cyntaf iechyd

meddwl, sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar etc. ac mae dolenni i sefydliadau a all helpu i gefnogi iechyd meddwl a lles ar gael ar y rhyngrwyd i bawb ar draws yr awdurdod gael mynediad atynt. Gofynnodd yr Aelodau sut y mesurwyd llwyddiant 'Amser i Newid Cymru'. Dywedodd swyddogion fod arolwg wedi'i gynnal ar gyfer staff mewn swyddfeydd a oedd wedi bod yn gweithio gartref yn ystod y pandemig, gydag amrywiaeth o gwestiynau'n ymwneud ag iechyd meddwl. Rhoddir adborth i'r pwyllgor gyda'r canlyniadau pan fydd ar gael. Bydd arolwg pellach o weithwyr rheng flaen yn cael ei gynnal dros yr haf. Esboniodd swyddogion fod arolwg aelodau hefyd wedi'i gynnal a gyhoeddwyd gan y Gwasanaethau Democrataidd a byddai'r canlyniadau'n cael eu rhannu â Phwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

Mewn perthynas â'r data a ddarparwyd yn yr adroddiad a oedd yn nodi bod costau cyflogeion yn cyfrif am 44.7% o'r gwariant gros, gofynnodd yr Aelodau pam y cyfeiriodd y Datganiad Polisi Tâl a gyflwynwyd yng nghyfarfod y cyngor ym mis Mawrth at ffigur o '47% o'r gwariant refeniw gros'. Gofynnodd yr Aelodau pa un o'r ffigurau oedd yn gywir ar gyfer 2020/21. Dywedodd swyddogion y byddent yn cadarnhau hyn ac yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

2. **<u>Adroddiad Blynyddol Cynllun y Gweithlu 2020/2021</u>**

Rhoddodd yr Aelodau drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Llongyfarchodd yr Aelodau'r staff ynglŷn â'r gwaith yr oeddent wedi ymdrin ag ef dros y flwyddyn ddiwethaf.

**PENDERFYNWYD:** Dylid nodi'r adroddiad.

3. **<u>Adroddiad Blynyddol Cynllun y Gweithlu 2020/2021</u>**

Rhoddodd yr Aelodau drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Dylid nodi'r adroddiad.

4. **<u>Polisi Brechlyn Coronafeirws</u>**

Rhoddodd yr Aelodau drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Nododd yr Aelodau y byddai staff yn cael eu talu pe baent yn sâl gyda sgil-effeithiau'r brechlyn, a gofynnodd a fyddai hynny'n cael ei gynnwys yn y ffigurau tâl salwch cyffredinol. Dywedodd swyddogion na fyddai absenoldebau mewn perthynas â sgil-effeithiau'r brechlyn yn cael eu cynnwys mewn tâl salwch, gan nad yw swyddogion am i unrhyw beth ddylanwadu ar benderfyniad rhywun i gael y brechlyn ai peidio. Gofynnodd yr Aelodau pam ei fod yn nodi y byddai angen i staff drafod cael y brechlyn gyda'u rheolwyr. Esboniodd swyddogion mai dim ond os oedd pryderon ynghylch cael y brechlyn y byddent yn cael trafodaethau.

**PENDERFYNWYD:** Rhoddir y gymeradwyaeth honno i gyflwyno'r Polisi Brechlyn Coronafeirws, fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

5. **Adolygiad o Gyfyngiadau Recriwtio**

Rhoddodd yr Aelodau drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Rhoi cymeradwyaeth i gyflwyno'r adolygiad o'r cyfyngiadau recriwtio, fel a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

6. **Mynediad i gyfarfodydd**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a diffinnir ym Mharagraff 12 ac 13 Adran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

7. **Diweddariad ar Drafodaethau Cyflog Cenedlaethol GLlL**

Rhoddodd y Swyddogion drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD:** Dylid nodi'r adroddiad.

8. **Adroddiad Taliad Honorariwm**

Rhoddodd y Swyddogion drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Taliad Honorariwm, fel a nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd yn cael ei gymeradwyo.